

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 15

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

6 Awst 2018

Annwyl Gyfaill,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

Bob blwyddyn mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, un o'r meysydd y byddwn yn canolbwyntio arno yw cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan gynnwys gwasanaethau ar ffiniau gofal.

Er mwyn llywio ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, byddem yn ddiolchgar o gael barn Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar y canlynol:

- Digonolrwydd cyllid i ddarparu gwasanaethau / cefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal ac unrhyw fwlch cyllido os yw'n berthnasol
- Y flaenoriaeth a roddir gan awdurdodau lleol i ariannu darpariaeth a chefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal
- Unrhyw wasgbwyntiau yn y blynyddoedd i ddod
- Yr amrywiad mewn gwariant fesul plentyn yn ôl awdurdod lleol
- Cyllid ar gyfer gwasanaethau ar ffiniau gofal i atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal, gan gynnwys gwasanaethau cymorth i deuluoedd
- Newidiadau, os o gwbl, yr hoffech chi weld Llywodraeth Cymru yn eu gwneud o ran cyllid ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau ar ffiniau gofal.




Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Yn atodedig i'r llythyr hwn mae cais y Pwyllgor am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am blant sy'n derbyn gofal, y gallech ei hystyried wrth ymateb i'r cais hwn.

Gofynnwn i ni anfon y wybodaeth hon atom erbyn **dydd Llun 7 Hydref 2019**.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



Atodiad: cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am blant sy'n derbyn gofal, a anfonwyd mewn llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 6 Awst 2019

1. Plant sy'n derbyn gofal

Byddem yn croesawu:

- Sylwebaeth fanwl ar y dyraniadau yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2020-21 a lle y gellir eu canfod yn y MEG (h.y. manylion y Meysydd Rhaglen Gwariant perthnasol, Camau Gweithredu a Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o newidiadau sylweddol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 (Mehefin 2019)) mewn perthynas â grantiau / gwasanaethau ar gyfer:
 - Plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwasanaethau maethu;
 - Gwasanaethau ar ffiniau gofal / gwasanaethau gofal i atal plant rhag derbyn gofal;
 - Cymorth wrth adael gofal.
- Manylion trafodaethau, a chanlyniadau trafodaethau, gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am yr adnoddau sydd eu hangen ar awdurdodau lleol yn y Grant Cymorth Refeniw i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Manylion trafodaethau gyda'r Grŵp Cyngori Gweinidogol Gwella Canlyniadau i Blant a sut maent wedi dylanwadu ar y dyraniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.

O ran dyraniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru ar draws y portffolios, byddem yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf am **Ymateb Llywodraeth Cymru yn 2016 i lythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus** o ran plant sy'n derbyn gofal.



O ran awdurdodau lleol, a allwch chi nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unrhyw asesiad o ran a yw hyn yn gysylltiedig â lefelau gwariant o'r Grant Cymorth Refeniw a'r Grantiau wedi'u Neilltuo. Byddem hefyd yn ddiolchgar am eich barn ar yr amrywiad mewn gwariant fesul plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol.

Byddwn hefyd yn gofyn i awdurdodau lleol am eu barn ar y cyllid sydd ar gael iddynt i atal plant rhag dod i mewn i'r system ofal a hefyd i gefnogi'r plant hynny sy'n derbyn gofal.

